*4 Tachwedd 2016*

Annwyl Bethan,

Ysgrifennaf atoch ar ran Grŵp Hawl Cymdeithas yr Iaith i ofyn am gyfarfod yn y dyfodol agos ynghylch Rheoliadau Safonau'r Gymraeg.

Deallwn mai'r disgwyl yw i Lywodraeth Cymru gyflwyno cylchoedd pellach o Reoliadau Safonau'r Gymraeg, ynghyd ag ail-gyflwyno'r Safonau ar gyfer y sector addysg a wrthodwyd yn y Cynulliad diwethaf, yn fuan. Fe fyddwch yn ymwybodol bod pryder wedi ei fynegi yn ystod y Cynulliad diwethaf o ran diffyg cyfleoedd i graffu'n ddigonol ar gynnwys y Rheoliadau hyn cyn eu cyflwyno i'r Cyfarfod Llawn. Yn ogystal, gwelwyd sawl enghraifft o wanhau'r Rheoliadau drafft fu'n destun Ymchwiliad Safonau Comisiynydd y Gymraeg erbyn eu cyflwyno i'r Cynulliad - gan wadu hawliau iaith dinasyddion Cymru.

Yn wyneb yr uchod, hoffem drefnu cyfarfod â chi fel Cadeirydd Pwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chyfathrebu i drafod sut y gall y Pwyllgor fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i ddwyn y llywodraeth i gyfrif ar fater creu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg a chraffu arnynt yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

Tybed a wnewch chi gadarnhau hefyd y gall eich Pwyllgor alw Rheoliadau Safonau'r Gymraeg i mewn - er mwyn craffu arnynt - ac y byddwch yn defnyddio'r grym hwn ar bob achlysur yn y dyfodol?

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Dymuniadau gorau,

Manon Elin,

Cadeirydd Grŵp Hawl i'r Gymraeg, Cymdeithas yr Iaith

*15 Tachwedd 2016*

Annwyl Manon

Diolch am eich neges e-bost.

O dan Reolau Sefydlog y Cynulliad, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol sydd â'r prif gyfrifoldeb am graffu ar is-ddeddfwriaeth. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor hwnnw ystyried pob darn o is-ddeddfwriaeth a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn nodi a ddylai roi sylw arbennig i unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath a osodir gerbron y Cynulliad. Mae'r amserlenni yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn golygu mai cyfle cyfyngedig iawn sydd i bwyllgorau eraill y Cynulliad ystyried is-ddeddfwriaeth. Mae'n annhebygol y bydd yn ymarferol inni wneud hynny ar yr achlysur hwn, o ystyried ein gwaith ar yr ymchwiliad yr ydym newydd ei lansio i strategaeth ddrafft y Llywodraeth ar yr iaith Gymraeg.

Deallaf y bydd y Cynulliad cyfan yn trafod y safonau ac yn pleidleisio arnynt, ac y bydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn eu trafod cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, byddaf yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Huw Irranca Davies AC, i dynnu ei sylw at eich pryderon ac i ofyn i'r Pwyllgor roi sylw arbennig i'r Rheoliadau hyn ar ôl

iddynt gael eu gosod gerbron y Cynulliad.  A allaf hefyd awgrymu y gallech ddwyn unrhyw bryderon yn uniongyrchol i sylw'r Pwyllgor. Y cyfeiriad e-bost yw seneddmcd@cynulliad.cymru.

Cofion gorau,

Bethan